# MENTER SIABOD

# GŴYL GWANWYN, MAI 2024

Roedd Gŵyl Gwanwyn mis Mai yn llwyddiant ysgubol, ac am unwaith, roedd y tywydd yn ffafriol dros ben.

Diolch yn arbennig i’r holl wirfoddolwyr oedd yn bresennol ar y dydd Gwener a’r dydd Sadwrn i osod a chadw’r pebyll mawr, sef un o’r tasgau mwyaf yn y bôn.

Diolch hefyd, i’r holl stondinwyr a’r trefnwyr digwyddiadau wnaeth ddod, wnaethoch chi i gyd ofalu ei fod yn ddiwrnod gwerth chweil.

Roedd y raffl yn llwyddiannus dros ben, diolch yn fawr i’r holl fusnesau wnaeth gyfrannu gwobrau mor hael. Diolch yn fawr.

Diolch hefyd i’r Koswicans, y band iwcalele wnaeth ein difyrru drwy gydol y dydd.

**Mae’n rhaid i’r diolch mwyaf serch hynny fynd i Kirsty, hebddi hi ni fyddem wedi gallu cynnal y digwyddiad. Roedd Kirsty yn rhagorol, gan drefnu pob agwedd o’r ŵyl. Fe ddylai fod yn falch am drefnu gŵyl mor wych a llawn hwyl.**



Yn olaf, diolch o’r galon i bawb wnaeth ddod i’r ŵyl, byddai’n dlawd hebddoch chi.



*(Parhad o dudalen 2)*

Cymru (bydd ymbarelau hefyd rhag ofn).

Maen nhw wrthi’n penderfynu ar yr union fanylion ar hyn o bryd ond cadwch lygad ar y cyfryngau cymdeithasol i wybod mwy ynghylch yr ail-agoriad mawreddog a’r oriau agor.

Adeg gyffrous dros ben.